OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 47 (Cy.15)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 15 Ionawr 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 19 Ionawr 2009
Yn dod i rym - - 9 Chwefror 2009

Mae'r Rheoliadau hyn a'r rheoliadau y maent yn eu diwygio yn gwneud darpariaeth ar gyfer bwriad a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ac ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau, yn y rheoliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, at Gyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 25 Mehefin 2002(**2**) sy'n ymwneud ag asesu a rheoli sŵn amgylcheddol, gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb honno fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â chamau'n ymwneud ag asesu, trafod a rheoli swn amgylcheddol(**3**). Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno a chan baragraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) O ran y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw yw Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2009;

(b) deuant i rym ar 9 Chwefror 2009; ac

(c) maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

2. Diwygir Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006(**4**) fel a ganlyn.

3.—(1) Diwygir rheoliad 2(2) (dehongli) fel a ganlyn:

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.J. Rhif L 189, 18.07.2002, t.12.
(**3**) O.S. 2004/706.
(**4**) O.S. 2006/2629.

(2) Yn y lle priodol yn y diffiniadau, mewnosoder "ystyr "map sŵn cyfunol" ("*consolidated noise map*") yw map sŵn a lunnir yn unol â rheoliad 15(4);";

(3) Yn y diffiniad o "Cyfarwyddeb", ar ôl "25 Mehefin 2002" ac o flaen "sy'n ymwneud ag asesu a rheoli" mewnosoder "ac fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;";

(4) Yn y fersiwn Saesneg yn unig, yn lle "major airport" ("*prif faes awyr*") rusuant to regulation 3" rhodder "major airport" ("*prif faes awyr*") pursuant to regulation 3;".

4.—(1) Diwygir rheoliad 3 (nodi ffynonellau sŵn) fel a ganlyn:

(2) Ym mharagraff (2) yn lle "Rhaid i'r Cynulliad nodi, a hynny ar ffurf rheoliadau a heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2011, yr holl" rhodder "Heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2011, rhaid i'r Cynulliad gyhoeddi mapiau'n nodi'r holl";

(3) Ym mharagraff (4) yn lle "rhaid i'r Cynulliad nodi, a hynny ar ffurf rheoliadau" rhodder "rhaid i'r Cynulliad gyhoeddi mapiau'n nodi'r holl".

(4) Ym mharagraff (3) yn lle "rheoliadau diweddaraf a gynhyrchir" rhodder "mapiau diweddaraf a gyhoeddir".

5. Yn lle rheoliad 13 (nodi ardaloedd tawel), rhodder—

"(1) Rhaid i ardaloedd tawel mewn crynodrefi cylch cyntaf gael eu nodi yn y cynlluniau gweithredu a lunnir o dan reoliad 17(1)(c).

(2) Rhaid i ardaloedd tawel mewn crynodrefi gael eu nodi yn y cynlluniau gweithredu a lunnir o dan reoliad 17(2)(c)".

6.—(1) Diwygir rheoliad 15 (cynlluniau gweithredu: gofynion cyffredinol) fel a ganlyn:

(2) Yn lle paragraff (1)(ch) rhodder "nodi ac ystyried blaenoriaethau gan roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 30(1)".

(3) Yn lle paragraff (4), rhodder—

"Caiff Gweinidogion Cymru lunio mapiau sŵn cyfunol mewn cysylltiad ag unrhyw ardal a geir mewn unrhyw fapiau sŵn strategol—

(a) sy'n cael eu gwneud neu eu hadolygu yn unol â rheoliad 7, 11 neu 12 a'u mabwysiadu yn unol â rheoliad 23, a

(b) sy'n ymwneud ag unrhyw ran o'r ardal y rhoddir ystyriaeth iddi yn y cynllun gweithredu."

7. Yn lle rheoliad 30(canllawiau), rhodder—

"(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod cymwys mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i awdurdod cymwys, wrth iddo arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1.".

Dirymu

8. Dirymir rheoliad 14 o Reoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006.